# Rhan 2 – Meini prawf cymhwysedd ar gyfer yr ynadaeth

## Cynnwys


**Rhan 2 – Meini prawf cymhwysedd ar gyfer yr ynadaeth ........ 1**
- **Ffactorau sy'n effeithio ar gymhwysedd ........ 2**
- **Oedran a hyd gwasanaeth rhesymol. ........ 2**
- **Cenedligrwydd a Phreswylfa ........ 2**
- **Iechyd / Anabledd ........ 2**
- **Galwedigaethau, gwaith gwirfoddol, a gweithgarwch gwleidyddol ........ 3**
- **Cysylltu â chyflogwr i gael rhagor o wybodaeth ........ 3**
- **Ymrwymiad i roi'r gorau i waith gwirfoddol sy'n gwrthdaro â rôl ynad ........ 3**
- **Euogfarnau, gorchmynion, a gweithdrefnau cyfreithiol eraill ........ 4**
- **Troseddau gyrru ........ 4**
- **Teulu neu ffrindiau agos ........ 4**
- **Methdaliad a diddymiad ........ 5**
- **Ysgariad ac achosion sy'n ymwneud â phlant ........ 5**
- **Gorchmynion llys sy'n ymwneud â chynhaliaeth ........ 5**
- **Perthynas ag ynadon eraill sy'n gwasanaethu ........ 6**
- **Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 ........ 6**
- **Cyrsiau adsefydlu ........ 6**
- **Grwpiau llywio'r Llywodraeth ........ 6**

# Rhan 2 – Meini prawf cymhwysedd ar gyfer yr ynadaeth

## Ffactorau sy'n effeithio ar gymhwysedd

**Oedran a hyd gwasanaeth rhesymol.**

2.1. Mae'n rhaid i chi fod yn o leiaf 18 oed cyn y gallwch gael eich penodi'n ynad. Yr oedran ymddeol statudol yw 75 oed. Yn ôl y gyfraith, ni chaiff yr Uwch Farnwr Llywyddol benodi ymgeisydd sydd y tu allan i'r ystod oedran hon.

2.2. Disgwylir i ymgeiswyr sy'n gwneud cais i gael eu penodi i'r ynadaeth ymrwymo i wasanaethu am o leiaf pum mlynedd. Mae'r polisi hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod angen buddsoddiad sylweddol mewn hyfforddiant a chefnogaeth ar ynad newydd, a chyfyngiadau ymarferol ar allu Pwyllgorau Ymgynghorol i recriwtio ynadon newydd.

2.3. Ni fydd yr Uwch Farnwr Llywyddol fel arfer yn penodi ymgeisydd sydd, ar adeg gwneud y cais, llai na phum mlynedd oddi wrth yr oedran ymddeol statudol.

**Cenedligrwydd a Phreswylfa**

2.4. Nid oes rhaid i chi fod yn ddinesydd Prydeinig, ond mae'n rhaid i chi fod yn fodlon Tyngu Llw o Deyrngarwch[1].

2.5. Rhaid i ymgeiswyr fod yn preswylio'n barhaol yn awdurdodaeth Cymru a Lloegr adeg cyflwyno'r cais.

2.6. Nid yw ymgeiswyr sydd yn y broses o, neu'n bwriadu ceisio lloches neu'n gwneud cais am ganiatâd amhenodol i aros yn y DU, yn gymwys. Eithriadau yw'r unigolion hynny sydd ar hyn o bryd â statws cyn-sefydlog ac sy'n bwriadu sicrhau statws sefydlog ar ôl cwblhau'r gofyniad preswylio o 5 mlynedd.

2.7. I gynnal egwyddor cyfiawnder lleol, dylai ymgeiswyr wneud cais i ardal sydd yn agos at eu cartref neu eu gweithle.

2.8. Pan fydd Pwyllgor Ymgynghorol yn cael cais gan unigolyn nad yw'n byw nac yn gweithio o fewn pellter rhesymol i'r ardal y mae'n gwneud cais iddi, dylid eu hannog i wneud cais i'r ardal lle maent yn byw neu'n gweithio. Gellir trosglwyddo ceisiadau i ardal arall gyda chytundeb yr ymgeisydd, os oes ymgyrch recriwtio ar agor yn yr ardal honno.

**Iechyd / Anabledd**

2.9. Ni fydd yr Uwch Farnwr Llywyddol yn penodi unrhyw un y mae eu hiechyd yn eu hatal rhag gallu cyflawni holl ddyletswyddau ynad yn llawn.

2.10. Croesewir ceisiadau gan unigolion ag anabledd sy'n gallu, naill ai heb gymorth neu gydag addasiadau rhesymol, gyflawni ystod lawn dyletswyddau ynad.

[1] Adran 6, Deddf Llwon Addewidiol 1868

2.11. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch ystyried ceisiadau gan unigolion ag anabledd a cheisiadau am addasiadau rhesymol yn Rhan 3 o'r Cyfarwyddiadau hyn.

**Galwedigaethau, gwaith gwirfoddol, a gweithgarwch gwleidyddol**

2.12. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, bydd neu gall rai galwedigaethau a gweithgareddau effeithio ar gymhwysedd unigolyn i ddod, neu i barhau i fod yn ynad. Ceir canllawiau ar alwedigaethau a gweithgareddau penodol a all effeithio ar gymhwysedd yn **Atodiadau 2A** (llys troseddol) a **2B** (llys teulu). Er gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y canllawiau ar gymhwysedd mor gynhwysfawr ac mor eglur ag sy'n bosibl, gall achosion anarferol godi nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr atodiadau hyn. Dylai Pwyllgorau Ymgynghorol gysylltu ag Adnoddau Dynol y Swyddfa Farnwrol os bydd angen cyngor arnynt ar ddelio ag achosion anarferol.

2.13. Ni ddylid ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n dal swydd neu swyddogaeth sy'n golygu eu bod yn awtomatig yn anghymwys i gael eu penodi.

2.14. Pan fo anghymwysedd yn dibynnu ar yr amgylchiadau unigol, dylai'r Pwyllgor Ymgynghorol archwilio'r amgylchiadau hynny i bennu a fydd gwrthdaro buddiannau yn debygol o godi ac, os felly, a ellir ei reoli'n effeithiol. Ymhlith y ffactorau perthnasol mae:

- natur ac ardal ddaearyddol y gwaith;
- unrhyw bresenoldeb mewn perthynas â'r gwaith yn y llys y gallai'r ymgeisydd/ynad gael ei aseinio iddo; ac
- amlder unrhyw gyswllt ag unigolion a allai ymddangos gerbron y fainc.

2.15. Os bydd ynad sy'n gwasanaethu yn derbyn unrhyw swydd neu rôl a fyddai wedi golygu eu bod yn gwbl anghymwys i gael eu penodi, mae'n rhaid iddynt hysbysu Cadeirydd y Fainc ac Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol ar unwaith. Y disgwyliad cyffredinol yw y bydd yr ynad yn ymddiswyddo.

2.16. Mewn pob sefyllfa arall, y rhagdybiaeth fydd y gall yr ynad eistedd oni bai bod perygl gwirioneddol neu ymddangosiadol o wrthdaro buddiannau. Dylai Pwyllgorau Ymgynghorol ystyried a ellir rheoli gwrthdaro buddiannau posibl drwy gyfyngu ar ddyletswyddau'r unigolyn o fewn yr ynadaeth, neu drwy eu trosglwyddo i Ardal Gyfiawnder Lleol arall yn unol â Rhan 5 o'r Cyfarwyddiadau hyn.

**Cysylltu â chyflogwr i gael rhagor o wybodaeth**

2.17. Efallai y bydd Pwyllgorau Ymgynghorol neu eu Hysgrifenyddion yn ystyried ei bod yn angenrheidiol cysylltu â chyflogwr ymgeisydd/ynad i gael rhagor o wybodaeth am eu galwedigaeth neu eu dyletswyddau, Rhaid cael caniatâd yr ymgeisydd/ynad ymlaen llaw.

**Ymrwymiad i roi'r gorau i waith gwirfoddol sy'n gwrthdaro â rôl ynad**

2.18. Gall unigolyn sy'n gwneud gwaith gwirfoddol a fyddai'n golygu eu bod yn anghymwys i gael eu penodi barhau i fod yn gymwys i wneud cais os ydynt yn barod i roi'r gorau i'r gwaith gwirfoddol hwnnw pan gânt eu penodi. Os cânt eu penodi, rhaid iddynt ddarparu

cadarnhad ysgrifenedig eu bod wedi rhoi'r gorau i'r gwaith gwirfoddol hwnnw cyn dechrau eistedd yn y llys.

**Euogfarnau, gorchmynion, a gweithdrefnau cyfreithiol eraill**

2.19. Ni fydd yr Uwch Farnwr Llywyddol yn penodi unrhyw un na fyddai gan y cyhoedd hyder ynddynt.

2.20. Wrth ystyried ymgeiswyr sydd wedi bod yn destun unrhyw orchymyn llys, boed yn sifil neu'n droseddol, mae angen i Bwyllgorau Ymgynghorol ystyried:

- natur y mater dan sylw;
- faint o amser sydd wedi mynd heibio ers hynny;
- unrhyw gosb neu orchymyn a roddwyd;
- difrifoldeb unrhyw drosedd; ac
- unrhyw ymddygiad dilynol neu droseddau pellach.

2.21. Os bydd y Pwyllgor Ymgynghorol yn penderfynu argymell ymgeisydd sydd ag euogfarnau (ac eithrio troseddau gyrru – gweler isod), rhaid iddo nodi'r rhesymau dros wneud hynny yn yr adroddiad penodi.

2.22. Ni ddylid argymell penodi unrhyw ymgeisydd sydd yn dangos dirmyg tuag at y gyfraith.

**Troseddau gyrru**

2.23. Ni fydd yr Uwch Farnwr Llywyddol yn penodi unrhyw unigolyn sydd wedi'i gael yn euog o:

- drosedd gyrru difrifol sydd wedi arwain at waharddiad rhag gyrru am **ddeuddeg mis neu fwy** o fewn y **deng mlynedd** diwethaf; neu
- trosedd gyrru difrifol sydd wedi arwain at waharddiad rhag gyrru am **lai na deuddeg mis** o fewn y **pum mlynedd** diwethaf; neu
- sydd wedi cael naw pwynt cosb neu fwy ar eu trwydded o fewn y pum mlynedd diwethaf. Mae hyn yn cynnwys cosbau penodedig.

2.24. Ni ddylai Pwyllgorau Ymgynghorol ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr sydd yn unrhyw un o'r categorïau uchod. Wrth ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr sydd wedi cael cosbau nad ydynt wedi'u rhestru uchod, dylid ystyried y ffactorau a nodir ym mhwynt 2.20.

**Teulu neu ffrindiau agos**

2.25. Pan fydd gan ymgeisydd aelod o deulu neu ffrind agos sydd ag euogfarnau neu rybuddiadau, neu pan roddwyd hysbysiadau cosb iddynt am droseddau, rhaid i'r Pwyllgor Ymgynghorol ystyried pob cais yn unigol; ni ddylid gwrthod unrhyw un yn awtomatig. Wrth ystyried unrhyw gais, dylai'r Pwyllgorau Ymgynghorol roi sylw i'r ffactorau canlynol:

- natur, nifer a difrifoldeb y troseddau (neu'r gweithgarwch troseddol), a phryd y digwyddodd;
- faint maent yn ymwneud â'r perthynas neu'r ffrind dan sylw;
- a yw'n ymddangos fel petai'r ymgeisydd yn maddef y drosedd; ac
- a fyddai'r amgylchiadau, pe cânt eu gwneud yn gyhoeddus, yn tanseilio enw da'r ynadaeth neu'n codi amheuaeth ynghylch statws yr ymgeisydd fel ynad.

**Methdaliad a diddymiad**

2.26. Ni fydd yr Uwch Farnwr Llywyddol yn penodi unrhyw ymgeisydd:

- sy'n fethdalwr nas rhyddhawyd; neu
- sydd â gorchymyn rhyddhad dyledion neu orchymyn rhyddhad dyledion interim yn eu herbyn, neu sydd wedi cytuno ar drefniant gyda'u credydwyr; neu
- sydd, neu sydd wedi bod yn gyfarwyddwr cwmni a gafodd ei ddiddymu yn ystod y pum mlynedd diwethaf; neu
- sydd wedi'i wahardd, neu sydd wedi'i ddiarddel o fewn y deng mlynedd diwethaf rhag gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni.

2.27. Ni ddylai Pwyllgorau Ymgynghorol ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n dod o dan unrhyw un o'r categorïau hyn.

**Ysgariad ac achosion sy'n ymwneud â phlant**

2.28. Ni ddylai ymgeisydd neu ynad yn y llys teulu gael eu penodi neu eistedd yn y llys teulu os oes ganddynt blant (o dan 18 oed) sydd ar hyn o bryd, neu y disgwylir y byddant yn dod yn destun achos llys neu orchymyn llys (er enghraifft, mewn perthynas â phreswylfa, cyswllt, materion penodol neu gynhaliaeth ariannol) hyd nes y bydd yr achos hwnnw wedi dod i ben. Mae hyn yn cynnwys unigolion sydd yn y broses o ysgaru os oes ganddynt blant y disgwylir y byddant yn dod yn destun gorchymyn llys.

2.29. Fel arfer bydd ynadon eraill, yn amodol ar gyngor gan Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol, yn cael parhau i wasanaethu ar y panel teulu neu yn y llys troseddol (gan gynnwys y llys ieuenctid) tra byddant yn mynd drwy'r broses ysgaru.

**Gorchmynion llys sy'n ymwneud â chynhaliaeth**

2.30. Os yw ymgeisydd neu ynad yn destun, neu'n fuddiolwr, gorchymyn ariannol (er enghraifft, gorchymyn asesu cynhaliaeth neu orchymyn cynhaliaeth plant) y gellir ei orfodi gan yr un Ardal Gyfiawnder Lleol neu/ardal panel teulu lle y bwriedir eu penodi, neu lle mae'r ynad yn eistedd ar hyn o bryd, rhaid i'r Pwyllgor Ymgynghorol sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud i drosglwyddo'r gorchymyn i ardal arall os daw'n orfodadwy. Dylai Pwyllgorau Ymgynghorol gofio y gall y broses o drosglwyddo gorchymyn llys fod yn faith ac felly dylent hysbysu'r ymgeiswyr neu'r ynadon am unrhyw effaith bosibl ar eu cais neu eu dyletswyddau eistedd.

**Perthynas ag ynadon eraill sy'n gwasanaethu**

2.31. Nid oes yna unrhyw beth sy'n rhwystro perthynas agos ynad rhag cael eu penodi i'r un fainc, ond ni ddylai'r ddau ynad eistedd ar achosion gyda'i gilydd.

2.32. Dylai Cadeirydd Mainc cyfagos ddelio ag unrhyw fater bugeiliol sy'n ymwneud â chymar neu berthynas agos Cadeirydd Mainc.

**Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998**

2.33. Ni fyddai'n briodol, o ystyried rôl y strategaethau troseddu ac anhrefn amrywiol, i ynadon fod yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n agos â'u rheolaeth a'u gweithrediadau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod safbwyntiau'r llysoedd yn rhan o'r broses gynllunio. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i sianeli cyfathrebu effeithiol fodoli rhwng y llysoedd a'r cyrff perthnasol ar lefel strategol briodol. Dylai ynadon drafod gyda'u Cadeirydd Mainc ac Ysgrifennydd y Pwyllgor Ymgynghorol i ba raddau y mae'n briodol iddynt gymryd rhan.

2.34. Cydnabyddir y bydd ynadon sy'n gynghorwyr sir neu'n gynghorwyr ardal, yn ôl pob tebyg, wedi cymryd rhan i ryw raddau yn y broses o gynllunio strategaethau troseddu ac anhrefn. Ni ystyrir bod hyn yn broblem, ar yr amod nad ydynt yn gweithredu fel llefarydd ar y pwnc ar ran yr awdurdod lleol.

2.35. Yn achos gweithwyr cynghorau sir neu gynghorau ardal, nid oes disgwyl i bryderon godi oni bai bod yr ynad mewn swydd amlwg neu'n gweithio'n benodol ar faterion sy'n ymwneud â throsedd ac anhrefn.

**Cyrsiau adsefydlu**

2.36. Gall ynadon arsylwi cyrsiau adsefydlu ar gyfer troseddwyr yfed a gyrru neu gynlluniau tebyg ar yr amod eu bod wedi ceisio cyngor gan Ysgrifennydd eu Pwyllgor Ymgynghorol. Gallant hefyd eistedd ar fwrdd rheoli cynlluniau o'r fath.

**Grwpiau llywio'r Llywodraeth**

2.37. Yn gyffredinol, nid oes gwrthwynebiad i ynadon wasanaethu ar grwpiau llywio o'r fath. Fodd bynnag, dylid ystyried pob achos ar sail ei rinweddau ei hun, gyda chymorth cyngor gan Ysgrifennydd eu Pwyllgor Ymgynghorol.